31 Ionawr 2020

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Parthed: Newidiadau arfaethedig i'r Amodau Safonol a Meini Prawf Cydnabod Cyffredinol

Gan fod y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020, rydyn ni'n cynnig diwygio Amod A2 yr Amodau Cydnabod Safonol ac A.2 ein Meini Prawf Cydnabod Cyffredinol. Bwriedir defnyddio'r diwygiadau yn ystod y cyfnod pontio ar ôl ymadawiad y DU a hyd at benderfynu ar unrhyw gytundebau newydd.

Mae'r Amodau a'r Meini Prawf cyfredol yn gofyn i gyrff dyfarnu yr ydym yn eu cydnabod fod yn aelod-wladwriaeth o'r UE neu EFTA, , neu fod â phresenoldeb sylweddol yddo, neu fod yn aelod-wladwriaeth cyfreithlon sefydledig o'r UE neu EFTA. Er bod cyfnod pontio, os na chaiff Amod A2 ei newid, o 31 Ionawr 2020 ni fydd cyrff dyfarnu sy'n cael eu cydnabod ar hyn o bryd gan Cymwysterau Cymru sydd fel arfer yn y DU neu wedi eu sefydlu'n gyfreithlon yn y DU yn cydymffurfio â'r Amod hwnnw, fel sydd wedi ei gyhoeddi ar hyn o bryd.

Ysgrifennom ni atoch chi'r llynedd yn egluro na fyddem ni'n cymryd camau rheoleiddiol yn ystod y cyfnod dros dro ac y byddem ni'n ystyried diwygiadau ar yr amser iawn. Rydyn ni bellach yn gallu diwygio'r geiriad ac rydyn ni'n ysgrifennu atoch i amlinellu'r newidiadau hyn ac i wahodd unrhyw adborth yn eu cylch gennych chi.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Rydyn ni'n ymwybodol bod Ofqual a CCEA Regulation hefyd yn ystyried newidiadau tebyg a byddwn ni'n parhau i hysbysu ein gilydd o'n cynlluniau.

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau am y newidiadau rydyn ni'n eu cynnig, ysgrifennwch at y Tîm Polisi Rheoleiddiol ar policy@qualificationswales.org erbyn 28 Chwefror 2020. Yn ystod y cyfnod ymgysylltu hwn, mae ein safbwynt yn parhau, sef nad ydyn ni'n bwriadu cymryd camau oherwydd tor-rheol technegol o ganlyniad i ymadawiad y DU o'r UE ac EFTA. Ar ôl ymgysylltu, rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi'r diwygiadau i'r Amodau a'r Meini Prawf ym mis Mawrth 2020.

Yr eiddoch yn gywir,

Jo Richards.

Cyfarwyddwr Gweithredol, Rheoleiddio.

Newidiadau arfaethedig i Amodau Cydnabod Safonol (A2) a Meini Prawf Cydnabod Cyffredinol (A.2)-gofynion sy'n ymwneud â lleoliad cyrff dyfarnu

Cyflwyniad

Gan fod y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020, rydyn ni'n cynnig diwygio Amod A2 o'r Amodau Cydnabod Safonol ac A.2 ein Meini Prawf Cydnabod Cyffredinol. Bwriedir defnyddio'r diwygiadau yn ystod y cyfnod pontio ar ôl ymadawiad y DU hyd at benderfynu ar unrhyw gytundebau newydd.

Mae'r Amodau a'r Meini Prawf cyfredol yn gofyn i gyrff dyfarnu yr ydym yn eu cydnabod fod yn aelod-wladwriaeth o'r UE neu EFTA, , neu fod â phresenoldeb sylweddol ynddo, neu fod yn aelod-wladwriaeth cyfreithlon sefydledig o'r UE neu EFTA. Er bod cyfnod pontio, os na chaiff Amod A2 ei newid, o 31 Ionawr 2020 ni fydd cyrff dyfarnu sy'n cael eu cydnabod ar hyn o bryd gan Cymwysterau Cymru sydd fel arfer yn y DU yn barhaol neu wedi eu sefydlu'n gyfreithlon yn y DU yn cydymffurfio â'r Amod hwnnw, fel sydd wedi ei gyhoeddi ar hyn o bryd.

Newidiadau arfaethedig nawr bod y DU wedi gadael yr UE ar 31 Ionawr 2020

Rydyn ni'n chwilio am farn ar ein cynigion i newid:

- A.2 Meini Prawf Cydnabod Cyffredinol (y Meini Prawf), rydyn ni'n eu defnyddio i benderfynu a ddylen ni gydnabod sefydliad er mwyn cynnig cymwysterau wedi eu rheoleiddio; ac
- A2 yr Amodau Cydnabod Safonol (yr Amodau), y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu, unwaith iddyn nhw gael eu cydnabod, gydymffurfio â nhw.

Newidiadau arfaethedig i'r Meini Prawf Cydnabod

Geiriad presennol Meini Prawf A.2 yw:

A.2 Mae'r Ymgeisydd:

(a) yn preswylio fel arfer yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop, neu

(b) wedi'i sefydlu'n gyfreithiol neu fod ganddo bresenoldeb sylweddol, yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop.

Rydyn ni'n cynnig newid hyn i:

A.2 Mae'r Ymgeisydd:

(a) yn breswylydd fel arfer yn y **DU, Gibraltar** neu yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu'r Ardal Fasnach Rydd Ewropeaidd, neu

(b) â phresenoldeb sylweddol yn y **DU, Gibraltar** neu yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu'r Ardal Fasnach Rydd Ewropeaidd.

Newidiadau arfaethedig i'r Amodau Cydnabod Safonol

Mae ein Hamodau Cydnabod Safonol, sy'n berthnasol i gorff dyfarnu unwaith iddo gael ei gydnabod, yn adlewyrchu'r un gofynion â'r Meini Prawf o ran preswylio, sefydliad cyfreithlon a phresenoldeb sylweddol. Y geiriad presennol yw:

A2.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod bob amser:

(a) yn preswylio fel arfer yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop, neu

(b) wedi'i sefydlu'n gyfreithiol neu fod ganddo bresenoldeb sylweddol, yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop.

Rydyn ni'n cynnig newid hyn i:

Mae'n rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod bob amser -

(a) yn bresswylydd fel arfer yn y **DU, Gibraltar** neu yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu'r Ardal Fasnach Rydd Ewropeaidd, neu

(b) â phresenoldeb sylweddol sylweddol, yn y **DU, Gibraltar** neu yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu'r Ardal Fasnach Rydd Ewropeaidd.

Sail resymegol dros ein newidiadau arfaethedig

Mae'r newid arfaethedig cyntaf yn angenrheidiol oherwydd, os nad ydyn ni'n gwneud y newid hwn, ni fydd pob corff dyfarnu rydyn ni'n ei gydnabod ar hyn o bryd sydd wedi ei leoli yn y DU (neu Gibraltar) yn cydymffurfio ag Amod A2.1 ar ôl i'r DU adael yr UE ar 31 Ionawr 2020.

Byddai'r newid hwn hefyd yn sicrhau dilyniant ar gyfer sut rydyn ni'n cydnabod cyrff dyfarnu, yn ystod y cyfnod pontio, unwaith i'r DU adael yr UE. Os nad ydyn ni'n gwneud y newid hwn, ni fyddwn ni'n gallu cydnabod cyrff newydd sydd yn y DU neu Gibraltar nad oes ganddyn nhw bresenoldeb sylweddol mewn aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Ardal Fasnach Rydd Ewropeaidd. Byddai hefyd yn galluogi cyrff dyfarnu sydd yn yr UE ac/neu mewn gwledydd EFTA i gael eu cydnabod gan Cymwysterau Cymru yn ystod y cyfnod pontio.

Byddai'r ail newid arfaethedig yn atal sefydliad sydd wedi ei sefydlu'n gyfreithlon yn y DU, Gibraltar neu wlad yn yr UE neu EFTA, ond sydd â digon o bresenoldeb yn unrhyw un o'r rheiny, rhag dod yn gorff dyfarnu a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru. Ar hyn o bryd mae'n bosibl, mewn theori o leiaf, i sefydliad gael cydnabyddiaeth os yw wedi ei sefydlu'n gyfreithlon yn yr UE neu EFTA, ond bod ei holl adnoddau, cyfleusterau a lleoliadau mewn gwlad nad yw yn yr UE nag EFTA.

Byddai'r newid yn golygu bod rhaid i gorff dyfarnu fod â phresenoldeb sylweddol yn y DU, Gibraltar neu aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Ardal Fasnach Rydd Ewropeaidd.

Ni chaiff newidiadau i'r Meini Prawf Cydnabod Cyffredinol unrhyw effaith ar gyrff dyfarnu a gydnabyddir ar hyn o bryd gennym. Yn yr un modd, bydd gwneud y newid i'r Amodau Safonol yn gwarchod sefyllfa bresennol y cyrff dyfarnu rydyn ni'n eu cydnabod sydd yn y DU.

Rydyn ni'n cynnig defnyddio'r gofynion hyn yn ystod y cyfnod pontio ar ôl ymadawiad y DU o'r UE. Byddwn ni'n adolygu'r gofynion hyn eto unwaith bod manylion perthynas hirdymor y DU gyda'r UE ac EFTA yn hysbys ar ôl y cyfnod pontio cychwynnol.

Traweffaith ein newidiadau arfaethedig

Newidiadau i'r Meini Prawf

Bydd prif effaith ein newidiadau arfaethedig i'r Meini Prawf yn golygu:

- y byddwn ni'n parhau i allu cydnabod cyrff dyfarnu newydd sy'n gwneud cais am gydnabyddiaeth ac sydd wedi eu lleoli yn y DU, Gibraltar, neu aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Ardal Fasnach Rydd Ewropeaidd; ac
- na fyddwn ni'n gallu cydnabod unrhyw sefydliad newydd sydd, er wedi ei sefydlu'n gyfreithlon yn y DU, Gibraltar neu aelod-wladwriaeth o'r UE neu EFTA, heb bresenoldeb sylweddol yn unrhyw un o'r gwledydd hynny.

Dim ond ar ddarpar gorff dyfarnu sydd eisiau cydnabyddiaeth yn y dyfodol nad oes ganddo bresenoldeb sylweddol yn yr UE y byddai'r newidiadau hyn yn effeithio.

Newid i'r Amodau

Prif effaith ein newidiadau arfaethedig i'r Amodau fydd:

- atal cyrff dyfarnu rydyn ni eisoes yn eu cydnabod sydd yn y DU neu Gibraltar rhag peidio â chydymffurfio ag Amod A2.1; ac
- achosi corff dyfarnu sy'n symud ei weithgarwch i wlad nad yw yn y DU, Gibraltar neu aelod-wladwriaeth o'r UE neu EFTA, ond sy'n parhau i fod wedi ei sefydlu'n gyfreithlon yn un o'r gwledydd hynny, rhag cydymffurfio ag Amod A2.1.

Mae gan bob corff dyfarnu rydyn ni'n ei reoleiddio ar hyn o bryd bresenoldeb sylweddol yn y DU, UE neu EFTA. Ni fyddai ein newid arfaethedig, cyn belled ag y gwyddom, yn effeithio arnyn nhw.

Nodyn Cefndirol

1. *Sefydliadau sydd yn y DU neu Gibraltar*

Pan fo'r DU yn gadael yr UE, bydd Gibraltar hefyd yn gadael yr UE. Ar hyn o bryd, gall corff dyfarnu sydd wedi ei leoli yn, neu wedi ei sefydlu'n gyfreithlon, yn Gibraltar wneud cais am gydnabyddiaeth oherwydd bod Gibraltar yn aelod o'r UE. O 1 Chwefror 2020 bydd y Meini Prawf Cydnabod Cyffredinol presennol yn ein hatal ni rhag cydnabod sefydliad sydd wedi ei leoli yn Gibraltar yn unig.

Bydd y newidiadau rydyn ni'n eu cynnig yn gwarchod y sefyllfa bresennol fel y gallem ni gydnabod sefydliad sy'n gwneud cais am gydnabyddiaeth ac sydd wedi ei leoli yn y DU neu Gibraltar, yn ogystal â'r rheiny mewn aelod-wladwriaeth yr UE neu EFTA.

Bydd trefniadau trawsnewidiol y DU ar ôl ei hymadawiad o'r UE ar 31 Ionawr 2020 yn cadw'r holl drefniadau presennol i sefydliadau mewn gwledydd UE/EFTA gyrchu marchnad y DU. Mae hyn yn golygu bod rhaid inni ganiatáu i sefydliadau o'r fath gael cydnabyddiaeth yn ystod y cyfnod pontio. Byddwn ni'n adolygu'r Meini Prawf eto unwaith i berthynas barhaol y DU gyda'r UE ac EFTA gael ei phenderfynu.

2. *Mae'n rhaid i sefydliadau gael presenoldeb sylweddol*

Mae'r geiriad presennol yn caniatáu i sefydliad gael ei gydnabod os yw wedi sefydlu'n gyfreithlon mewn gwlad yr UE neu EFTA er bod ei holl adnoddau, cyfleusterau a lleoliad y tu allan i'r UE neu EFTA, er enghraifft os yw wedi ei sefydlu'n gyfreithlon yn Lloegr a/neu Gymru, gan ddefnyddio cyfeiriad busnes rhithwir sy'n cwrdd â'r gofynion a osodir gan Dŷ'r Cwmnïau. Er nad ydyn ni wedi cydnabod sefydliad o'r fath, petai sefydliad o'r fath yn cwrdd â'r holl Feini Prawf Cydnabod eraill, bydden ni, ar hyn o bryd, yn gorfod cydnabod y sefydliad hwnnw.

Nid ydyn ni'n meddwl y byddai cydnabod sefydliad o'r fath yn gyson â'n cylch gwaith fel y nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015 - sef rheoleiddio cymwysterau a chyrff dyfarnu ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.

Hefyd, rydyn ni'n meddwl y byddai monitro sefydliad sydd mewn lleoliad arall yn barhaus yn amharu ar ein gallu i wneud hynny'n effeithlon ac yn effeithiol, ac ni fyddai'n cynnig gwerth am arian.